



Datganiad i'r cyfryngau
24ain Mawrth 2022
I'w ryddhau ar unwaith

Sinema Cymru i ddatblygu Dangosiadau Ffilm i gynulleidfaoedd gyda cholled clyw

Mae Canolfan Ffilm Cymru (FHW) a Chyngor Cymru i Bobl Fyddar (WCDDP) yn gweithio gydag wyth sinema yng Nghymru i sefydlu grwpiau gwirfoddol B/Byddar a fydd yn helpu i wella profiadau sinema i gynulleidfaoedd gyda cholled clyw, yn eu cymunedau lleol.

Mae'r lleoliadau yn cynnwys Theatr Torch (Aberdaugleddau), The Maxime (Coed Duon), Galeri (Caernarfon), Magic Lantern (Tywyn) Neuadd Dwyfor (Pwllheli), Chapter (Caerdydd), a Theatr Gwaun (Abergwaun). Ar ôl cymryd rhan mewn hyfforddiant gyda WCDDP, i edrych ar sut i ateb anghenion cynulleidfaoedd sinema gyda cholled clyw, mae'r cyrff yn cyflwyno gweithgareddau newydd cyffrous.

Gyda chymorth ariannol gan FHW, fe fydd pob lleoliad yn gweithio gyda WCDDP i gysylltu gyda chynulleidfaoedd B/byddar i ffurfio grwpiau gwirfoddol sydd yn gallu rhannu eu profiadau personol o fynd i'r sinema er mwyn siapio gweithgareddau yn y dyfodol.

Dywedodd Louise Sweeney o Gyngor Cymru i Bobl Fyddar:

"Mae pobl B/byddar. ByddarDall a phobl sydd yn drwm eu clyw yn wynebu problemau hygrychedd ac maen nhw'n aml yn amharod i fynd i sinema oherwydd hyn. Fe fydd gwybod y bydd eu profiadau yn gwella yn y sinema sydd yn rhan or rhaglen yma, gyda staff yn derbyn hyfforddianr ymwybyddiaeth B/byddar a Bydda/Dall, hyfforddiant iaith arwyddion a lleoliadau yn dod yn fwy Byddar gyfeillgar yn rhywbeth i'w groesawu ac yn arwydd caonogol i gymunedau B/Byddar a Thrwm eu Clyw."

Yn Galeri, Caernarfon, yn ogystal â gweithio gyda Chymdeithas Byddar Gogledd Cymru a Chlwb Byddar Gwynedd, fe fydd fyfyrwraig fyddar 16 oed yn gweithio gyda'r lleoliad i greu rhagor o ddeunyddiau marchnata BSL hygrych.

Dywedodd Galeri Caernarfon:

"Rydym yn ymdrechu i wneud Galeri yn ganolfan amrywiol a chroesawgar wrth raglennu ffilmiau ag isdeitlau, a buddsoddi mewn hyfforddiant Makaton a chymwysterau BSL ar gyfer ein staff. Rydym hefyd yn hapus i fod yn gweithio gyda pherson ifanc Byddar lleol i greu cynnwys fideo ar gyfer ein canolfan, nid yn unig er mwyn gwneud yn siwr bod Galeri yn ganolfan hygrych i bob cynulleidfa, ond i ysbrydoli ac ysgogi pobl eraill i wneud yr un peth."

Yn Hywind, mae'r Magic Lantern yn gwahodd pobl FyddarDall lleol a'u teuluoedd i'r sinema ar gyfer diwrnod agored i archwilio'r gofod a chyfarfod y staff a fydd hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant BSL.

Mae Annie Grundy o'r Magic Lantern yn esbonio:

"Mae ein tîm yn falch iawn o'r croeso rydyn ni'n ei roi i'n cynulleidfa, yn lleol ac yn ymweld, felly mae gallu cyfleu'r croeso hwnnw i bob ymwelydd yn wirioneddol bwysig i ni. Rydyn ni'n gwybod bod gennym ni lawer mwy i'w ddysgu. Rydyn ni eisiau parhau â hyfforddiant BSL ac mae angen i ni archwilio mwy o ran technolegau i'n helpu ni i fod yn fwy hygrych, felly gam wrth gam... byddwn ni'n dal ati. Wedi'r cyfan, mae adeiladu ac ehangu cynulleidfaoedd bob amser yn mynd i fod yn allweddol i'n goresiad hirdymor."

Sefydlwyd y prosiect gan Ganolfan Ffilm Cymru o ganlyniad i adborth gan sinemau, pobl greadigol B/byddar as chynulleidfaoedd eu hunain. Drwy'r prosiect Sinema Cynhwysol y mae FHW yn ei arwain ar ran rhwydwaith FAN BFI, fe fydd Cymdeithas Dosbarthwyr Ffilmiau (FDA) yn cynnig detholiad o ffilmiau allweddol gyda fformatau addas, y bydd yr wyth lleoliad yn gallu eu derbyn.

Dywedodd Hana Lewis, Rheolwraig Strategol Canolfan Ffilm Cymru:

"Mae sinemau sydd yn cynnig dangosiadau film i gymunedau B/byddar yn gallu wynebu rhwystrau fel cyllid i ddiweddarau offer, diffyg ffilmiau gyda fformatau hygyrch neu ddigon o rybudd i farchnata'r ffilm.. Nod ein partneriaeth gyda FDA a WCDDP ydy cefnogi sinemau, tra hefyd yn sicrhau bod cynulleidfaoedd B/byddar yn gallu gweld y ffilmiau annibynnol diweddaraf a chynnig adborth uniongyrchol am eu profiadau

Mae'r prosiect yma yn digwydd diolch i gyllid gan y Loteri Cenedlaethol gan BFI, drwy ei Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN),. Mae Canolfan Ffilm Cymru yn datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau annibynnol Prydeinig a rhyngwladol drwy gydol y flwyddyn. Mae cyllid yng Nghymru yn cael ei weinyddu gan FHW drwy Chapter fel y Corff Atrweinio Canolfannau.

Codir dros £30M pob wythnis i achosion da ar draws y DU gan y Loteri Cenedlaethol.

Gwybodaeth am Ddangosiadau

1. Fe fydd [Theatr Torch](#) yn Aberdaugleddau yn adeiladu ar eu perthnasau cyfredol yn y sir gyda grwpiau cefnogi cymunedol Sign and Share a PAVS. Maen nhw'n bwriadu cynnig gwirfoddolwyr blaen tŷ i gefnogi hygyrchedd i gynulleidfaoedd a gweithio gyda WCDDP i chwilio am gymunedau B/byddar pellach.

Maen nhw'n cynnal dau ddangosiad gydag is-deitlau bob wythnos a'r nesaf ydy *Cyrano* ar ddydd Mercher 30 Mawrth a *The Phantom of the Open* ar dydd Iau 7 Ebrill.

2. Mae [Maxime](#) yn y Coed Duon ar hyn o bryd yn dangos perfformiadau gydag is-deitlau ddwywaith yr wythnos, bob dydd Mercher a dydd Sul. Maen nhw eisiau adeiladu ar lwyddiant eu dangosiadau amgylchedd gefnogol drwy ymestyn allan i grwpiau cymunedol lleol.

Fydd dangosiadau yn cynnwys *The Phantom of the Open* ar ddydd Mercher 30 Mawrth.

3. Mae [Galeri, Caernarfon](#) yn rhedeg 3 ffilm yr wythnos ar nosweithiau Llun, prynhawn Iau a dangosiadau ymlacedig gydag is-deitlau ar foreau Sadwrn i deuluoedd.

Maen nhw'n gweithio gyda myfyrwraig ifanc 16 oed sydd yn Fyddar i greu fideos marchnata BSL yn cynnwys negeseuon croeso a chyflwyno i'w defnyddio yn yr adeilad ac ar-lein. Maen nhw hefyd yn gobeithio gweithio gyda Chymdeithas Fyddar Gogledd Cymru a Clwb Byddar Gwynedd i gyfarfod grwpiau yn bersonol lle mae'n bosibl er mwyn dod i adnabod eu cynulleidfaoedd yn iawn.

Fydd dangosiadau yn cynnwys *The Phantom of the Open* sy'n rhedeg o 28 - 31 Mawrth.

4. Fe fydd y [Magic Lantern](#) yn Nhywyn yn cynnal o leiaf dau ddangosiad y mis gyda ffilmiau ychwanegol i deuluoedd yn ystod gwyliau'r haf. Fe fydd digwyddiadau arbennig yn cynnwys diwrnod agored ar Mai 7, yn gwahodd cynulleidfaoedd byddardall a'u teuluoedd i archwilio'r sinema a chyfarfod y staff a fydd hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant BSL O hyn maen nhw'n bwriadu ffurfio grŵp o wirfoddolwyr i'w helpu i ffurfio dau ddigwyddiad arbennig arall a diweddarau eu gwefan.

Eu dangosiad nesaf ydy *The Duke* ar 28 a 31 Mawrth.

5. [Neuadd Dwyfor](#), Pwllheli – Yn dilyn gwairh adnewyddu sylweddol i'r adeilad yn cynnwys toiled hygyrch newydd ar y llawr daear, seddi yn y balconi ac awditoriwm a bar coffi yn y cyntedd, ailgorodd y sinema ar 10 Mawrth.

Fe fydd manylion ar wefan y sinema am y dangosiadau ffilm i gynulleidfaedd B/byddar yn y dyfodol.

6. Mae [Chapter](#) yng Nghaerdydd yn gweithio gyda Chlwb Byddar Caerdydd i ffurfio pwyllgor o bobl Fyddar ar gyfer rhaglen newydd o ddangosiadau ffilm lleiafrifol yn 2022. Cynhelir trafodaeth wedi'i dehongli yn dilyn y ffilm yng Ngyntedd y Sinema. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda'r artist byddar Jonny Cotsen ar 'Hear We Are' prosiect R&D dwy flynedd newydd a fydd yn delio gyda mynediad i gynhyrchiad creadigol o artistiaid a chymunedau Byddar

Fydd dangosiadau yn cynnwys *The Phantom of the Open* sy'n rhedeg tan dydd lau 31 Mawrth.

7. Fe fydd [Theatr Gwaun](#) yn Abergwaun yn cynnal dangosiad misol, yn gweithio i sefydlu grŵp dan arweiniad pobl Fyddar/trwm eu clyw lleol sydd â diddordeb mewn helpu i ddatblygu sinema yn y Theatr. Fe fyddan nhw hefyd yn archwilio partneriaethau newydd gyda chyrrff fel Sign and Share yn Sir Benfro.

Edrychwch ar wefan y sinema am fanylion ar y dangosiadau ffilm sydd i ddod i gynulleidfaedd B/byddar.

-Diwedd-

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Silvia Sheehan, Swyddog Cyfathrebu / silvia@filmhubwales.org

Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu, ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org

Hana Lewis, Rheolwraig Strategol, ar 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

Am Ganolfan Ffilm Cymru

Mae Canolfan Ffilm Cymru yn dathgleu sinema. Rydym yn cefnogi cyrrff sydd yn dangos ffilmiau o wyliau ffilm i gymdeithasu a chanolfannau celf cymysg. Gan weithio gyda dros [315 o arddangoswyr Cymreig](#), ein nod ydy cyflwyno'r ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i gynulleidfaedd ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 250 o brosiectau sinema cyffrous gan gyrraedd dros 480,000 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith DU gyfan o wyth canolfan sydd yn ffurfio'r [Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm \(FAN\)](#) BF gyda chefnogaeth cyllid gan y Loteri Cenedlaethol. [Chapter](#) ydy 'Corff Arweiniol Canolfannau Ffilm yng Nghymru.

Rydym hefyd yn falch o arwain ar strategaeth [sinema cynhwysol](#) ar ran FAN BFI.

[Gwefan](#), [Twitter](#), [Facebook](#), [Instagram](#)

Am Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI

Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydwethrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrrff a

Ileoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:

- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

[BFI FAN Gwefan](#)

Am BFI

Rydym yn elusen diwylliannol, dosbarthydd y Loteri Cenedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy

Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU

- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn lleoliadau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen cofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol.

Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Tim Richards.

Am Chapter

Chapter ydy un o ganolfannau celfyddydau mwyaf, a mwyaf deinamig Ewrop gyda sinemau, theatrau, gofod arddangos, stiwdios a chaffi, bariau arobryn a dros 60 gofod gweithio diwylliannol a mwy.

Mae gan Chapter enw da rhyngwladol am ragoriaeth, arloesi a chydweithredu. Mae'n cynnig rhaglen newidiol barhaus o ffilmiau ac arddangosfeydd gorau o Gymru ac o amgylch y byd.

[Gwefan](#), [Facebook](#), [Twitter](#)

Cyngor Cymru i Bobl Fyddar (WCDP)

WCDP ydy'r corff elusennol Cymreig i bobl sydd yn Fyddar, wedi'u Byddaru, ByddarDall a thrwm eu clyw a sefydlwyd ym 1950. Rydym yn gymdeithas ambarel o gyrff. Credwn y dylid cael mynediad cyfartal i bawb ac rydym yn ceisio gwella bywydau'r gymuned B/.byddar yn barhaus. Rydym yn darparu cefnogaeth, cyngor, cyfathrebu a gwasanaethau sydd yn helpu i'w galluogi i fyw bywydau annibynnol a llawn. Rydym felly yn cynnal gweithgareddau sydd yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau ym meysydd addysg, cyflogaeth, ymgyrchu, lleddfu ynysigrwydd cymdeithasol a phroblemau iechyd cysylltiedig. Rydym yn gweithredu rhestr o weithgareddau craidd fel a bennir gan yr aelodau, yn cynnwys datblygu a chefnogi grwpiau gwirfoddol, gwybodaeth a chyngor, mentrau hyfforddi yn berthynol i glywed (BSL,

ymwybyddiaeth Byddar a chysiau darllen gwefusau) a chynhyrchu BSL Media.

[Gwefan](#) [Facebook](#), [Twitter](#)

Am Sinema Cynhwysol

Prosiect Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) BFI DU gyfan ydy Sinema Cynhwysol i gefnogi arddangoswyr i groesawu pawb i gymryd rhan mewn sinema, drwy oresgyn rhwystrau diwylliannol, systematig neu gorfforol.

Dan arweiniad Canolfan Ffilm Cymru ar ran BFI FAN, mae'r prosiect yn cefnogi nodau'r rhwydwaith o gyflwyno ffilmiau Prydeinig, rhyngwladol ac annibynnol i gynulleidfoedd. Gan ganolbwytnio ar gynulleidfoedd ifanc (16-30) a sector arddangos medrus, hyderus, mae mynediad wrth galon strategaeth FAN. Mewn partneriaeth gyda ein rhwydwaith creadigol o arddangoswyr, rydym yn dathlu cynrychioliadua ystyrlon o amrywiaeth y tu ôl i'r camera, ar y sgrin ac yn ein cynulleidfoedd gan weithio tiag atg Safonau Amrywiaeth BFI.

[Gwefan](#), [Twitter](#)